**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** **HSS(2)-02-03(p.1)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 25 Mehefin 2003**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Teitl:** **Cydadolygiadau o Wasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau leol yng Nghymru**

## Diben

1. Rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ar yr hynt o ran datblygu trefniadau ar gyfer rhaglen o Gydadolygiadau am y cyfnod o 2004 hyd 2009.

## Y Cefndir

2. Sefydlwyd y Cydadolygiadau o Wasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol ym 1996 yn Lloegr ac ym 1998 yng Nghymru. Maent ar ffurf cyd brosiect rhwng y Comisiwn Archwilio ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yr Adran Iechyd yn Lloegr ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.

3. Bydd y rhaglen 5 mlynedd bresennol o Gydadolygiadau yng Nghymru yn dod i ben erbyn diwedd y flwyddyn hon. Hyd yn hyn cyhoeddwyd adroddiadau ar 16 o'r awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol. Penderfynwyd y dylid cynnal rownd arall o Gydadolygiadau yng Nghymru, ond ni fydd hyn yn digwydd yn Lloegr.

4. Ar ôl cwblhau'r rhaglen gyntaf, daeth cyfle i adolygu'r trefniadau presennol, ac fel rhan o'r broses ymgynghori flynyddol ar Raglen Arolygu Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, cynhaliwyd ymarfer ymgynghori yn ceisio barn gychwynnol ar y rhaglen gyntaf a'r trefniadau ar gyfer y dyfodol. Casglwyd canlyniadau'r ymgynghoriad ynghyd ac mae crynodeb ohonynt mewn dogfen sydd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau.

5. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad cychwynnol yn amlwg yn cefnogi cynnal ail rownd o Gydadolygiadau ac yn cydnabod y rhan bwysig y maent wedi ei chwarae o ran archwilio'r modd y mae pob awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Maent hefyd yn nodi'r angen:-

- I gryfhau'r cyfraniad y gall trefniadau'r dyfodol ei wneud er mwyn cael dull sy'n canolbwyntio ar wella ac sy'n cyfrannu at Raglen Cymru ar gyfer Gwella,
- I sicrhau bod y trefniadau hyn yn integreiddio'n well gyda'r gwaith arall sy'n anelu at werthuso perfformiad yr awdurdodau gwasanaethau cymdeithasol,

- I leihau, cyn belled ag sy'n ymarferol, y beichiau gwaith y mae'r awdurdodau yn eu hysgwyddo yn sgil y broses Adolygu.

6. Mae Cydadolygiadau yn ffurfio elfen bwysig o atebolrwydd cyhoeddus y gwasanaethau cymdeithasol. Maent yn gwneud y gwasanaethau cymdeithasol yn agored er mwyn i bobl graffu arnynt mewn ffyrdd y gellir eu deall yn rhwydd. Maent yn gwasanaethu diben gwella gwasanaethau ac mae'n rhaid iddynt fod ynghlwm wrth strategaethau eraill ar gyfer gwelliant parhaus a rheoli perfformiad.

**Y sefyllfa bresennol**

7. Mae Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) a'r Comisiwn Archwilio (CA) yng Nghymru wrthi'n datblygu cynigion manwl ar gyfer yr ail rownd o Gydadolygiadau i Gymru. Bydd y rhain yn destun ymgynghoriad eang cyn llunio'r trefniadau terfynol.

8. Dyma grynodeb o'r egwyddorion allweddol sydd wedi dod i'r amlwg hyd yn hyn o ran y trefniadau arfaethedig ar gyfer y dyfodol:-

- Dylai'r Cydadolygiadau newydd fod yn fenter ar y cyd rhwng Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru
- Dylent fod yn annibynnol, yn gynhwysfawr ac yn anelu at wella.
- Dylid seilio'r trefniadau ar ddatganiad o'r egwyddorion sy'n sail i arolygu a rennir gan AGCC a'r CA, ac ar arferion gorau.
- Dylent fod yn seiliedig ar risg, yn gymesur ac yn cynrychioli gwerth am arian.
- Dylent adeiladu ar gryfderau cydnabyddedig y rhaglen Gydarolygu bresennol er mwyn sicrhau dilyniant.
- Dylent adeiladu ar fanwl gywirdeb Arolygiadau'r AGCC ac arolygiadau a gwaith archwilio'r CA yng Nghymru.
- Dylent integreiddio â fframweithiau eraill ar gyfer asesu a gwella gwasanaethau'r awdurdodau lleol, gan gynnwys fframwaith Gwerthuso Perfformiad AGCC, gwaith datblygu a gwella, a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.
- Dylid cyflawni'r rhaglen trwy bartneriaeth uniongyrchol rhwng AGCC a'r Comisiwn Archwilio yng Nghymru o dan oruchwyliaeth gyffredinol Prif Arolygydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyfarwyddwr Cyffredinol Comisiwn Archwilio Cymru.
- Byddai'r trefniadau presennol o gael timau sy'n cynnwys prif adolygydd ac ail adolygydd yn cael eu gwella trwy ychwanegu adolygydd arall ac asesydd lleyg. Bydd cydbwysedd o arbenigedd corfforaethol a gwasanaethau cymdeithasol ym mhob tîm.
- Byddai beichiau gwaith yr awdurdodau yn cael eu cadw ar y lefel isaf bosibl trwy ddefnyddio gwell gwybodaeth rheoli perfformiad a deunydd awdurdodol sydd ar gael o ganlyniad i waith gan eraill, gan gynnwys arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill.

- Dylid rhoi mwy o sylw i ofyn barn defnyddwyr y gwasanaeth a'r gofalwyr, a dylid edrych ar asesu sut y mae'r gwasanaeth yn effeithio arnynt hwy.
- Dylid cyhoeddi'r adroddiadau yn gyflym a dylent fod ar gael i aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Byddai'r AGCC a'r CA yn parhau â'r arfer o gyhoeddi adroddiadau cyffredinol o bryd i'w gilydd ar gyfer ail rownd yr Adolygiadau.
- Byddai gofyn i bob awdurdod a adolygir gyhoeddi ymateb yn nodi ei gynllun gweithredu ar gyfer ymateb i ganfyddiadau'r Adroddiad.
- Byddai ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y cynllun arfaethedig newydd gydag ystod o gyrff cynrychioladol, e.e. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS), SOLACE, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a heb anghofio buddiannau'r defnyddwyr a'r gofalwyr.
- Byddai grwp cyfeirio o brif randdeiliaid, gan gynnwys y rheini yr ymgynghorwyd â hwy uchod, yn cael ei sefydlu i archwilio'r ymateb i'r papur ymgynghori ac i lywio datblygiad y trefniadau newydd.

9. Bydd AGCC a'r Comisiwn Archwilio hefyd yn edrych ar y cyfleoedd a ddarperir yn sgil creu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o ran gweithio i adolygu gofal cymdeithasol a gwasanaethau a systemau iechyd.

**Y Camau Nesaf**

10. Mae angen i'r rhaglen o Gydadolygiadau newydd fod yn barod i'w rhoi ar waith yn 2004/5. Dyma'r prif gerrig milltir ar gyfer cyflawni'r targed hwn:-

| | |
|---|---|
| Gorffennaf 2003: | cyhoeddi cynigion ar gyfer ymgynghori arnynt |
| Hydref 2003 | llunio'r fethodoleg derfynol |
| Ionawr 2004: | hysbysiad ffurfiol i'r awdurdodau a fydd yn cael eu hadolygu |
| Ebrill 2004: | cychwyn y rhaglen |

11. Yn ystod y cyfnod ymgynghori bydd cyfle i aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrannu at y drafodaeth ar drefniadau terfynol y rhaglen cydarolygiadau newydd.

**Jane Hutt**
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol